**Y Pwyllgor Biliau Diwygio**
—
**Reform Bill Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwygio@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwygio
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddReform@senedd.wales
senedd.wales/SeneddReform
0300 200 6565

Dr Elizabeth Haywood
Cadeirydd Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd

19 Ionawr 2024

Annwyl Elizabeth

Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau): adroddiad Cyfnod 1

Fel y gwyddoch, rydym wedi bod yn gwneud gwaith craffu Cyfnod 1 ar Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau). Hoffem ddiolch i chi a'ch swyddogion unwaith eto am roi tystiolaeth i lywio ein gwaith.

Mae copi o adroddiad y Pwyllgor, a osodwyd heddiw, ynghlwm wrth y llythyr hwn. Hoffem dynnu eich sylw at yr argymhelliad a ganlyn:

> **Argymhelliad 49.** Wrth iddo baratoi ar gyfer gweithredu'r diwygiadau yn y Bil, dylai Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd adolygu'r Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol ac ystyried unrhyw ddarpariaeth berthnasol arall y gellid ei darparu drwy ei Benderfyniad. Yn ystod y broses hon, dylai ystyried yn benodol i ba raddau y mae'r cymorth sydd ar gael yn cyfateb i'r lefel a'r mathau o gymorth sydd ar gael mewn mannau eraill, gan gynnwys Arian Short ac Arian Cranborne yn Senedd y DU. Dylid gweithredu canlyniadau'r gwaith hwn o ddechrau'r Seithfed Senedd yn 2026.

Os yn bosibl, byddai'n ddefnyddiol cael ymateb ysgrifenedig erbyn **dydd Gwener 26 Ionawr 2024** i alluogi'r Aelodau i fyfyrio arno cyn dadl Cyfnod 1.

Yn gywir

David Rees AS
Cadeirydd y Pwyllgor Biliau Diwygio

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English